Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl353

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Prosiect System Gwresogi ac Awyru Dalfa’r Drenewydd**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn dilyn codi pryderon ynghylch offer llywio ac effeithiolrwydd gweithredol system awyru Dalfa’r Drenewydd, cynhaliwyd adroddiad dichonolrwydd a tendrwyd dyluniad dilynol. Derbyniwyd y cynnig tendro ar 30 Awst 2024 oddi wrth CBRE ar gyfer dau opsiwn. Opsiwn 1 yw cadw’r offer presennol a chyflawni uwchraddiadau. Opsiwn 2 yw gosod Pwmp Gwres o'r Aer effeithlon o ran ynni newydd er mwyn darparu awyru ac oeri yn y ddalfa gydag ôl troed carbon llai a gwydnwch uwch. Byddai offer llywio Systemau Rheoli Adeiladau a argymhellir yn caniatáu i ffannau ar waith ac wrth gefn ar yr ochr gyflenwi ac ar yr ochr echdynnu gael eu monitro ac uwchgyfeirio diffygion ar gyfer eu cywiro.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn cwblhau’r ymarfer tendro, yr argymhelliad yw dyfarnu’r contract Opsiwn 2 i CBRE wedi eu cefnogi gan IWS a BSC. Roedd hyn ar y sail bod y cyflenwyr uchod wedi sgorio’n uwch na chyflwyniadau eraill a dderbyniwyd ar asesiad Ansawdd Cost.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 12/11/2024**